
cymorth cymru
connect • strengthen • influence

St Martin in the Fields Frontline Network Partner

# Anawsterau yn y Rheng Flaen:

## Effaith yr argyfwng costau byw ar weithwyr cymorth rheng flaen yn y sector digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru



Medi 2022

# Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru

**Mae Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru yn cael ei ddarparu gan Cymorth Cymru mewn partneriaeth â Rhwydwaith Rheng Flaen St Martin's. Ei nod yw rhoi cyfle i staff rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl ddigartref yn y sectorau gwirfoddol, statudol a chyhoeddus, a'r rhai hynny mewn swyddi sy'n darparu cymorth tai yng Nghymru, i rannu eu barn a'u profiadau, i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer.**

Wedi ei sefydlu ar ddiwedd 2020 yng nghanol pandemig byd eang, cynhaliodd y Rhwydwaith ddigwyddiad lansio lle rhoddwyd cyfle i weithwyr rheng flaen holi'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Yn dilyn y digwyddiad hwn, a fynychwyd gan bron i 200 o bobl, buom yn cynllunio i sefydlu cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol ar-lein. O ystyried ôl troed rhanbarthol y Grant Cymorth Tai, penderfynwyd y byddai cyfarfodydd Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru hefyd yn cael eu cynnal gan ddefnyddio'r rhaniadau rhanbarthol hyn oedd yn bodoli eisoes: Cwm Taf Morgannwg, Gwent, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, Bro Morgannwg a Chaerdydd, a Gorllewin Morgannwg. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn dilyn rownd gyntaf y cyfarfodydd yma.

## Ynghylch Cymorth Cymru

**Cymorth Cymru yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, cymorth ym maes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

Mae ein haelodau'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ymdopi â chyfnodau anodd, ailadeiladu eu hynanhyder, a byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Maent yn cynnwys pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod felly, pobl ifanc a rhai sy'n gadael gofal, pobl hŷn, pobl sy'n ffoi rhag trais yn erbyn menywod, trais yn y cartref neu drais rhywiol, pobl sy'n byw gydag anabledd dysgu, pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, pobl sy'n cael problemau gyda chamddefnyddio sylweddau, a llawer mwy.

Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau ac ar y bobl maent yn estyn cymorth iddynt. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, ein haelodau a'n partneriaid, i greu newid. Credwn y gallwn, gyda'n gilydd, gael mwy o effaith ar fywydau pobl. Rydym yn awyddus i fod yn rhan o fudiad cymdeithasol sy'n rhoi terfyn ar ddigartrefedd a chreu Cymru lle gall pawb fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a ffynnu yn eu cymunedau.

## Ynghylch y Rhwydwaith Rheng Flaen

**Mae'r Rhwydwaith Rheng Flaen yn gweithio ar lefel genedlaethol a lleol ledled y DU i gefnogi a grymuso staff rheng flaen sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus, statudol a gwirfoddol gyda phobl ddigartref.**

Ar lefel leol, ers 2017 rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau Partner ledled y DU. Mae ein Partneriaid wedi ein helpu i adeiladu gwaith y Rhwydwaith Rheng Flaen ar lefel leol, trwy hwyluso eu gweithgareddau Rhwydwaith Lleol sy'n dod â gweithwyr rheng flaen ynghyd yn rheolaidd. Mae ein Partneriaid yn darparu:

- Cyfleoedd i weithwyr rheng flaen ddod at ei gilydd yn rheolaidd yn eu hardaloedd – i rwydweithio ac i rannu profiadau ac arbenigedd
- Y potensial i chwilio am atebion i broblemau allweddol sy'n effeithio ar staff a'r bobl maent yn rhoi cymorth iddynt
- Cysylltiadau rhwng llais y rheng flaen a'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau.

Ar lefel Genedlaethol, nod y Rhwydwaith Rheng Flaen yw adeiladu perthnasoedd, rhannu ymarfer gorau, datblygu atebion, a chyfathrebu profiad a barn gweithwyr rheng flaen ledled y DU. Rydym yn cynnig cyllid, cymuned ac adnoddau i ddarparu cyfleoedd i staff ddod at ei gilydd i rannu eu profiadau a'u harbenigedd a chefnogi ymarfer gwaith. Rydym yn cysylltu pobl drwy ein cynadleddau a'n digwyddiadau blynyddol a rhanbarthol ac yn darparu cyfleoedd i staff ddweud eu dweud drwy yr Arolwg Blynyddol: Gweithwyr Rheng Flaen.

# Contents


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Effaith yr argyfwng costau byw | 2 |
| Tâl annigonol | 5 |
| Costau cynyddol am ynni | 7 |
| Cynnydd ym mhris tanwydd | 8 |





**Awduron yr adroddiad:**
Gareth Lynn Montes
Mandy Powell
Katie Dalton

# Rhagair

**Yn ystod y pandemig COVID-19, gwnaeth staff y sector digartrefedd a chymorth tai waith rhyfeddol, gan gadw degau o filoedd o bobl yn ddiogel a pharhau i ddarparu cymorth hanfodol er gwaethaf y peryglon roedd hyn yn ei achosi iddynt hwy a'u teuluoedd.**

Buont yn helpu miloedd o bobl i gael mynediad at lety argyfwng, a rhoi cymorth i bobl ddigartref neu rai oedd mewn perygl o golli eu cartrefi, cam-drin domestig, argyfyngau iechyd meddwl a chwalu teuluoedd, a hynny dan yr amgylchiadau mwyaf anodd. Buont yn darparu gofal a chymorth holl bwysig i bobl a chanddynt anableddau dysgu, a phobl oedrannus, oedd yn fregus iawn yn wyneb y firws, gan eu cadw'n ddiogel mewn cyfnod o straen difrifol iddynt hwy a'u teuluoedd.

**Ac mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen.** Mae canlyniadau COVID yn parhau i'w deimlo gan staff cymorth rheng flaen yn y sector digartrefedd a chymorth tai, sy'n gwneud eu gorau glas i helpu'r miloedd o bobl y mae llety argyfwng bellach yn norm iddynt, a'r degau o filoedd sy'n ceisio dod allan o ddigartrefedd, cynnal eu tenantiaethau neu barhau i fyw'n annibynnol.

**Ond erbyn hyn mae'r gweithwyr yma'n wynebu storm berffaith o gyflogau isel ac argyfwng costau byw.** Mae'r union bobl rydym yn dibynnu arnynt i helpu pobl allan o ddigartrefedd yn cael eu gwthio'n nes at yr dibyn, yn cael eu gorfodi i ddefnyddio banciau bwyd, dewis rhwng gwresogi a bwyta, dioddef iechyd meddwl cynyddol wael, a chael anhawster i dalu biliau rhent, tanwydd ac ynni sy'n cynyddu'n gyson. Mae llawer ohonynt yn ystyried a allant fynd ymlaen fel hyn.

**Mae hyn yn annerbyniol.**

Yn achos cynifer o weithwyr yn y sector digartrefedd a chymorth tai mae'r gwaith hwn yn alwedigaeth, ac anaml iawn mae'r cyflog a dderbyniant yn gymhelliant dros aros yn eu swydd. Pe bai hynny'n wir, ni fyddent yn debygol o weithio yn y sector hwn. Maent wrth eu bodd yn eu gwaith ac yn falch o'r effaith bositif a gânt ar fywydau pobl.

**Ond mae hyn yn teimlo'n wahanol.** Maent yn wynebu eu hargyfwng difrifol eu hunain, ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn gyda'r un teimlad o frys ag a ddangoswyd gan y gweithwyr hyn yn eu swyddi dros y blynyddoedd diwethaf.

**Mae'n bryd gweithredu.** Neu, fel arall, byddwn yn colli'r bobl hynny o sector sydd eisoes wedi ei dan-staffio. Ac yn waeth fyth, yn y pen draw gallent fod mewn sefyllfa lle mae arnynt hwy eu hunain angen yr union wasanaethau maent wedi gweithio mor galed i'w cyflenwi. Rydym yn annog llywodraethau, comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth i gymryd sylw o'r sylwadau a'r profiadau a rennir yn yr adroddiad hwn, a gweithredu i sicrhau bod ein gweithwyr cymorth rheng flaen anhygoel ym maes digartrefedd a chymorth tai yn cael yr help mae gwir angen amdano.

**Katie Dalton**
**Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru**

# Effaith yr argyfwng costau byw

**Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, daeth yn amlwg i ni fod yr argyfwng costau byw yn cael effaith ar y bobl sy'n cyflenwi gwasanaethau hanfodol ym maes digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru.**

O ganlyniad, aethom ati i gynnal cyfarfodydd ar-lein gyda 68 o weithwyr rheng flaen ym maes digartrefedd a chymorth tai ledled Cymru i gasglu eu sylwadau ar y modd y mae costau byw yn effeithio ar eu bywydau a'u gallu i wneud eu gwaith. Ymhellach, dosbarthwyd arolwg fel bod modd i weithwyr rheng flaen rannu eu barn a'u profiadau, gyda 656 o bobl yn ymateb.

Gwelwyd fod effaith yr argyfwng costau byw a phryderon pobl am y dyfodol yn eang iawn, gan effeithio nid yn unig ar eu sefyllfa ariannol ond hefyd ar eu hiechyd meddwl, eu teuluoedd, a'u gallu i wneud eu gwaith. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn mynd i fwy o ddyled, yn cymryd swyddi ychwanegol, yn gweld gostyngiad mawr yn ansawdd eu bywydau, ac yn teimlo'n fwy a mwy pryderus ynghylch beth fydd yn eu hwynebu yn y dyfodol. Mae'r dyfyniadau isod yn crynhoi sylwadau ychydig yn unig o'r gweithwyr y buom yn siarad â hwy, tra bod y graff yn tanlinellu'r effaith ar fywydau dros 650 o weithwyr rheng flaen a ymatebodd i'n harolwg.

**"Dwi'n gweithio'n llawn amser jest i fyw, dydw i ddim yn mynd allan nac ar wyliau, nac yn cael llawer o fywyd cymdeithasol."**

**"Bellach dydw i ddim yn byw – dim ond bodoli!"**


**"Rydyn ni'n llythrennol yn ddim ond un siec cyflog o drychineb ariannol."**

**"Dwi ddim wir yn byw, dim ond yn goroesi o un mis i'r llall."**

**"Dwi'n delio gydag atgyfeiriadau, ond bellach dwi'n derbyn mwy a mwy ohonyn nhw gan staff sy'n methu fforddio biliau'r cyngor ac yn gorfod defnyddio banciau bwyd."**

**"Dwi'n colli prydau bwyd."**

**Ydy costau byw wedi cael unrhyw rai o'r effeithiau isod arnoch chi yn ystod y 9 mis diwethaf?**



# Yr effaith ar iechyd meddwl pobl

Siaradodd gweithwyr rheng flaen yn huawdl am yr effaith roedd yr argyfwng costau byw yn ei gael ar eu hiechyd meddwl. Soniodd llawer am bryder ac iselder ysbryd, yn cynnwys pobl a chanddynt gyflyrau iechyd meddwl eisoes, ac eraill oedd yn cael profiad o hyn am y tro cyntaf.

Yn ogystal, soniodd llawer am orfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd eu hiechyd meddwl, neu eu bod yn ymwybodol o gydweithwyr eraill oedd yn gorfod cymryd absenoldeb salwch am yr un rheswm. Tra bod pobl yn poeni'n fawr am yr effaith ar eu cydweithwyr, roedd yna bryderon hefyd y byddai'r nifer o bobl oedd yn sâl, ac eraill oedd yn gadael y sector oherwydd straen, yn cynyddu'r pwysau ar y staff eraill o fewn y gwasanaeth.

Dywedodd eraill fod yr argyfwng costau byw yn golygu na allent bellach fforddio cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon na hamdden y tu allan i'r gwaith – gweithgareddau oedd, cyn hynny, wedi eu helpu i gynnal eu hiechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r gampfa, mynychu dosbarthiadau dawnsio, a gweld eu ffrindiau.

**"[Mae 'na] lawer o salwch ymhlith y staff, a hwnnw'n gysylltiedig â straen; rydyn ni'n dal i gario mlaen ta beth, ond mae'n effeithio'n wael ar iechyd meddwl y staff."**

**"Mae gennym un aelod o staff sy'n ei chael yn wirioneddol anodd. Mae'r swydd a'r pwysau gwaith wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl. Mae eu t yn cwympo i lawr o'u cwmpas."**

**"Dwi ddim yn gwneud unrhyw beth sy'n gwneud lles i'm hiechyd meddwl oherwydd mae popeth yn costio arian."**

**"A minnau eisoes yn cael triniaeth am Bryder ac Iselder, mae'r costau byw (yn ogystal â ffactorau eraill) wedi ychwanegu at y lefel o bryder sydd wedi fy arwain at gael bron i dair wythnos i ffwrdd o'r gwaith. Mae'n achos o un peth ar ôl y llall, yn ychwanegu mwy a mwy o bwysau mewn effaith domino, ac mae teimlo'n ansefydlog ac ansicr yn ariannol yn brofiad brawychus."**

**"Mae'r cynnydd yn y costau byw wedi cael effaith enfawr ar fy iechyd meddwl dros y 9 mis diwethaf. Dwi'n poeni am gostau byw o ddydd i ddydd ar fy nghyfer i fy hun, fy nheulu a'm anifail anwes. Dwi'n poeni am allu fforddio pethau hollol sylfaenol a chynnal car, cartref, gofal personol, a gallu fforddio prynu bwyd i mi fy hun a'r ci. Dwi'n poeni'n ddi-baid oherwydd fy mod ddim ond jest yn llwyddo i fyw ar fy nghyflog, a'r straen o orfod ystyried chwilio am swydd arall, o bosib, oherwydd fy incwm isel."**

**"Dyw fy iechyd meddwl ddim yn rhy dda ar unrhyw adeg, a dyw pryderu am arian ddim yn fy helpu yn hyn o beth. Ro'n i eisoes yn pryderu am dalu'r biliau, a nawr mae pris popeth yn codi eto heb unrhyw ffordd o dalu amdanyn nhw, felly dwi'n bryderus iawn. Dwi ddim yn cymdeithasu ta beth, ac ar ôl COVID mae'n teimlo fel petaen ni'n cael ein cosbi ymhellach. Dwi wedi cael llond bol ar weithio'n galed a chael dim byd allan ohono. Dwi'n gwybod bod pawb arall yn yr un sefyllfa, ond mae'n gwneud i mi feddwl am hunanladdiad gan na alla i weld unrhyw ffordd allan o'r trybini."**



# Yr effaith ar fywyd teuluol pobl

Mae effaith yr argyfwng costau byw i'w deimlo nid yn unig gan weithwyr rheng flaen, ond ar eu teuluoedd hefyd. Soniodd rhai gweithwyr rheng flaen am y straen mae'r sefyllfa wedi'i roi ar eu perthynas â'u hanwyliaid, neu'r modd y maent wedi ceisio amddiffyn eu plant rhag eu pryderon am arian.

Soniodd eraill eu bod yn gweithio oriau hirach ac felly'n methu treulio cymaint o amser gyda'u plant; dywedodd sawl un na allent bellach fforddio talu am weithgareddau ar ôl yr ysgol, na dyddiau allan i'r teulu. Rhannodd rhai pobl hanesion hynod drist ynghylch methu mynd i ymweld â pherthnasau, na gofalu amdanynt yn y modd y byddent yn dymuno ei wneud, oherwydd costau tanwydd ac ynni.

**"Mae'r pwysau'n achosi llawer o straen. Bydd y plant yn sefyll arholiadau'n fuan ac ry'n ni'n ceisio eu harbed rhag poeni am arian."**

**"Dwi'n cyfyngu... ar ansawdd bywyd fy nheulu [a fi] oherwydd y pryder o fethu fforddio costau byw,  ynghyd â gwneud gweithgareddau dros yr haf pan mae'r plant ar wyliau ysgol."**


**"Mae fy llys-dad yn wael iawn, ac mae ei gyflwr yn effeithio ar ei dymheredd ei gorff gan olygu ei fod yn teimlo'n oer yn aml. Allwn ni ddim rhoi'r gwres ymlaen mor aml ag sydd angen, ry'n ni wedi colli ei gyflog e ac felly dim ond un prif incwm sy gennym ni."**

**"Dwi'n methu mynd i weld fy mam sy'n sâl ac yn byw ar ei phen ei hun. Mae hi wedi cael ei heffeithio'n fawr iawn gan y costau byw cynyddol ac yn byw gryn bellter i ffwrdd – mae'n achosi straen a phryder ofnadwy i mi oherwydd mod i'n methu bod yn fab cefnogol."**

**"Mae e'n sicr wedi rhoi pwysau ar fy mherthynas i a 'mhartner. Dwi wedi mynd yn eitha obsesiynol ynghylch torri i lawr ar gostau."**

**"Dwi'n teimlo fel taswn i'n gweithio'r holl oriau yma dim ond i allu fforddio cadw to uwch fy mhen ac yn methu mwynhau pethau fel mynd allan am y dydd fel teulu, neu ar wyliau, [na] phrynu dillad teidi ar gyfer fy nheulu."**

**Pa mor bryderus ydych chi ynghylch effaith yr argyfwng costau byw arnoch chi a'ch teulu?**






# Tâl annigonol

**Un o'r rhwystredigaethau mwyaf cyffredin a fynegwyd gan weithwyr cymorth rheng flaen yn y sector digartrefedd a chymorth tai oedd diffyg unrhyw godiad cyflog ystyrlon dros y ddegawd ddiwethaf. Roeddynt yn glir nad oedd y tâl wedi cadw i fyny â chwyddiant, ac roedd hyn yn cael effaith sylweddol ar eu gallu i dalu am fwyd, rhent, biliau a chostau angenrheidiol eraill.**

Tanlinellodd rhai y ffaith eu bod hwy neu eu cydweithwyr wedi cymryd swyddi ychwanegol, gan ychwanegu at y pwysau ar eu bywydau, gyda rhai'n gweithio llawer gormod o oriau wrth geisio ennill digon o arian i gael safon byw sylfaenol. Gwnaeth llawer o weithwyr y sylw eu bod yn awr yn wynebu'r mathau o heriau sydd, yn draddodiadol, yn effeithio ar y bobl maent yn eu helpu. Soniodd llawer ohonynt am y problemau a wynebent i dalu eu rhent neu filiau, gydag eraill yn dweud eu bod hwy eu hunain, neu eu cydweithwyr, yn gorfod defnyddio banciau bwyd neu wneud cais am arian argyfwng.

Yn ystod y pandemig roedd y gweithwyr hyn yn cael eu hystyried fel rhai cwbl hanfodol, gan barhau i gyflenwi gwasanaethau wyneb yn wyneb ar adeg pan oedd y rhan fwyaf o fusnesau'n cau eu drysau ac yn rhoi staff ar ffyrlo. Maent yn cyflawni gwaith hynod gymhleth, gan roi cymorth i bobl mewn argyfwng – a'r rheiny'n aml eisoes wedi dioddef trawma sylweddol – ac maent yn haeddu cael eu talu'n ddigon da i allu byw eu bywydau'n rhydd o bryderon ariannol, heb deimlo dan bwysau i gymryd swyddi ychwanegol er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd.

**44%** yn cael anhawster i dalu eu biliau

**11%** yn cael anhawster i dalu'r rhent

**7%** wedi gorfod defnyddio banc bwyd

"Ar gyfartaledd dwi'n gweithio rhwng 45–50 awr yr wythnos, ac yn chwilio am ail swydd, ond does gen i ddim syniad sut y gallaf ffitio hyn i mewn. Dwi'n cael trafferth i gysgu oherwydd mod i'n poeni gymaint. Gan mod i'n gweithio dwi ddim yn gallu hawlio budd-daliadau, ond dwn i ddim am faint hirach y galla i ddal i fynd fel hyn."

"Bellach, dyw fy nghyflog ddim yn ddigon i dalu fy holl gostau, hyd yn oed ar ôl i mi ganslo pob gweithgaredd cymdeithasol."

"Mae'r staff hefyd yn wynebu trafferthion, wrth i bopeth gynyddu – rhent, siopa, petrol . . . ac mae ein cyflog yn aros yn ei unfan, felly mae gweithwyr cymorth yn chwilio am waith ychwanegol; rydyn ni wedi blino'n lân wrth weithio drwy'r amser, ond does dim dewis arall."

"Dwi'n delio gydag atgyfeiriadau, a bellach dwi'n cael mwy a mwy ohonyn nhw oddi wrth staff sy'n methu fforddio talu eu biliau, ac sy'n gorfod defnyddio banciau bwyd."

"Dwi'n poeni am allu fforddio pethau hollol sylfaenol, a chynnal car, cartref, gofal personol, a gallu fforddio bwyd i mi fy hun a'r ci. Dwi'n poeni'n ddiddiwedd oherwydd mod i ddim ond jest yn llwyddo i fyw ar fy nghyflog, a'r straen o feddwl y bydd raid i mi o bosib chwilio am waith arall oherwydd yr incwm isel."

"Dwi ddim yn cael fy nhalu tan ddydd Gwener a does gen i ddim dimai yn fy nghyfri banc, ac mae hynny'n iawn, ond ry'n ni'n helpu pobl gyda'u cyllidebau ar adeg pan rydyn ninnau hefyd angen help."

## Cymryd swyddi ychwanegol

Dywedodd nifer o bobl wrthym eu bod wedi cymryd swyddi ychwanegol ymlaen oherwydd nad oedd eu cyflogau fel gweithwyr cymorth yn ddigon i gael dau pen llinyn ynghyd.

Roedd rhai'n gweithio am hyd at 70 awr, sef dwywaith gymaint â'r nifer o oriau a weithir fel arfer gan weithiwr amser llawn yn y DU. Canlyniad hyn yw fod pobl wedi ymlâdd yn llwyr, heb unrhyw gyfle i orffwys ac ymadfer. Dywedodd eraill wrthym eu bod yn ystyried ceisio am swyddi ychwanegol i'w helpu gyda'r costau byw, ond nad oeddynt yn sicr sut y byddent yn ymdopi.

**"Rhaid i mi weithio mewn ail swydd er mwyn gallu talu fy ymrwymiadau ariannol angenrheidiol – morgais, cyfleustodau ac ati – a chael ychydig bach dros ben ar gyfer cymdeithasu. Yn ddiweddar, fodd bynnag, dwi wedi teimlo mod i'n gweithio mewn dwy swydd, am dros 70 awr yr wythnos, gydag ychydig iawn o arian ar ôl i allu mwynhau unrhyw beth."**

**"Mae gen i aelod o'r staff sydd wedi troi at waith rhyw i gael dau pen llinyn ynghyd. Ddylai pethau ddim bod fel hyn."**

**"Rhaid i mi weithio mewn tair swydd arall ar ben y swydd hon fel gofalwr, dim ond er mwyn gallu byw fy mywyd. Yn anffodus, does gen i ddim egni ar ôl i fwynhau fy hun ar ddiwedd y dydd, a dyw cael penwythnosau'n rhydd ddim yn rhywbeth y gallaf fforddio i'w wneud. Yn araf bach, [dwi] ar fy ffordd i losgi allan."**

### Argymhellion:

- Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol ystyried a ellid defnyddio unrhyw dan-wariant yn 2022/23 i ddarparu tâl ychwanegol i staff cymorth yn y sector digartrefedd a chymorth tai i'w helpu gyda'r pwysau sydd ar gostau byw ar hyn o bryd.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r gyllideb Grant Cymorth Tai am 2023/24 fel bod gweithwyr cymorth yn y sector digartrefedd a chymorth tai yn gallu derbyn codiad cyflog i'w helpu gyda'r pwysau sydd i ddod ar gostau byw.
- Dylai awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i gynnig codiad cyflog cyson ledled y wlad i sicrhau bod sefydliadau sy'n gweithio mewn sawl ardal awdurdod lleol yn gallu gweithredu'r codiad cyflog.
- Dylai cyflogwyr ystyried pa gymorth ariannol y gallai staff gael mynediad ato i'w helpu dros y misoedd sydd i ddod.
- Dylai Llywodraeth Cymru ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweithlu'r Bwrdd Cenedlaethol dros roi Terfyn ar Ddigartrefedd ynghylch cyflogau, cyn gynted ag y cânt eu cyhoeddi.

# Costau cynyddol am ynni

**Fel llawer o bobl ledled Cymru, mae gweithwyr cymorth rheng flaen yn y sector digartrefedd a chymorth tai yn gynyddol bryderus ynghylch y codiad mewn costau ynni a'u gallu hwy i dalu'r biliau.**

Ynhlith y rhai a holwyd, roedd 95% yn pryderu 'llawer iawn' neu 'llawer' am y cynnydd a ragwelir mewn costau ynni y mis Hydref hwn. Ymhellach, mae 86% o'r ymatebwyr eisoes wedi gweithredu i leihau eu costau ynni trwy ddiffodd goleuadau neu offer trydanol, tra bod 79% wedi penderfynu peidio â gwresogi'r tŷ. Gwnaeth rhai y sylw fod y dilema 'gwresogi neu fwyta', sydd yn draddodiadol yn rhywbeth a wynebir gan bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau, bellach yn dod yn ystyriaeth bwysig i weithwyr cymorth ym maes digartrefedd a chymorth tai. Mae'n amlwg bod gweithwyr rheng flaen eisoes yn cael anhawster gyda'u biliau ynni, ac mae'r rhan fwyaf yn pryderu am y misoedd sydd i ddod, gyda 95% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn dweud eu bod yn pryderu'n 'fawr iawn' neu'n 'fawr' ynghylch y codiad yn y pris a ddisgwylir ym mis Hydref. Tra bod cynllun Llywodraeth y DU i rewi biliau ar £2,500 y flwyddyn yn golygu na fydd y cynnydd gymaint ag a ragwelwyd, mae'n parhau i fod yn gynnydd – un na fydd llawer o weithwyr rheng flaen yn gallu ei fforddio.


**"Dwi'n bwyta llai er mwyn sicrhau bod gen i arian i dalu biliau a chostau tanwydd [...] Dwi'n poeni wrth goginio, golchi, gwylio'r teledu, gweithio o gartref – unrhyw beth sy'n defnyddio fy nhrydan neu fy nwy, neu'n defnyddio fy nghar."**

**"Ro'n i eisoes yn poeni am dalu biliau, a nawr mae popeth yn codi eto heb unrhyw fodd o'u talu nhw, felly dwi'n bryderus iawn."**

**"Dwi nawr yn gweithio gyda phobl sy'n gorfod penderfynu p'un ai i fwyta neu i wresogi [eu cartrefi] ac rwyf innau'n eistedd yno yn meddwl yr un peth yn union."**

**"Dwi'n gwisgo dillad tamp i arbed gwresogi."**

**Pa mor bryderus ydych chi ynghylch y cynnydd ym mhris ynni a ragwelir ym mis Hydref**




**86%** yn diffodd goleuadau neu offer trydanol

**79%** wedi penderfynu peidio â chynnau'r gwres canolog

## Argymhellion:

- **Dylai Llywodraeth y DU weithredu ymhellach i ostwng prisiau ynni a darparu cefnogaeth ariannol i helpu pobl i ymdopi â chostau ynni yn awr ac yn y dyfodol.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno sylwadau cadarn ar y mater hwn ac ystyried sut y gallant ddefnyddio cyllidebau datganoledig i helpu pobl yng Nghymru i ymdopi â chostau ynni.**

# Cynnydd ym mhris tanwydd

**Mae'r cynnydd ym mhris petrol a diesel wedi cael cryn sylw dros y misoedd diwethaf, gyda llawer o bobl yn cael anhawster i gwrdd â'r costau cynyddol ac yn dewis gwneud llai o ddefnydd o'u car. Fodd bynnag, mae llawer o weithwyr rheng flaen yn dibynnu'n llwyr ar eu car ar gyfer eu gwaith, gan deithio i weld nifer o gleientiaid bob dydd mewn ystod eang o leoliadau.**

Dywedodd **89%** fod costau ychwanegol am danwydd yn rhoi pwysau ar eu sefyllfa ariannol bersonol

Mae diffyg isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhad a dibynadwy dros y rhan fwyaf o Gymru yn golygu nad oes unrhyw ddewis ymarferol arall, ac mae'r heriau hyn yn waeth yng nghefn gwlad Cymru lle mae'r cleientiaid yn byw ymhellach oddi wrth ei gilydd.

Tra bod modd i'r rhan fwyaf o weithwyr rheng flaen gael ad-daliad o'u costau tanwydd, maent yn gynyddol bryderus nad yw'r lwfans milltiredd o 45c y filltir (heb newid ers 2011) yn talu am y costau maent yn eu hwynebu. Gosodir y lwfans milltiredd gan HMRC[1], ac roedd llawer o'r gweithwyr rheng flaen y buom yn siarad â hwy yn daer am i Lywodraeth y DU gynyddu'r gyfradd hon.

"Mae costau tanwydd yn cael effaith ar staff cymorth; dyw'r [lwfans] o 45c ddim yn ddigon i dalu'r costau, heb sôn am y costau eraill o redeg car megis y prawf MOT a theiars. Bu raid i mi dalu £120 am deiars newydd yr wythnos hon."


Mae'r broblem hon hefyd yn cynyddu'r perygl y bydd staff yn gadael y sector. Os bydd gweithwyr cydwybodol ar eu colled, ac yn methu darparu'r gofal priodol i bobl maent yn eu cefnogi, mae'r sector mewn perygl o'u colli i sectorau eraill sy'n cynnig gwell telerau ac amodau.

"Wrth i ni ddod allan o'r pandemig rydyn ni'n cael ein hannog i fynd yn ôl i'r swyddfa, ond mae llawer ohonom yn byw tu fas i'r ddinas, felly mae'n costio'n ddrud i ni deithio i'r gwaith [yn y car], a chan ein bod mewn swyddi gweithwyr cymorth symudol rydyn ni'n gweithio dros ardal eang ac yn gorfod gyrru i gadw apwyntiadau."

Pan fuom yn siarad â gweithwyr rheng flaen, roeddynt yn codi dau brif fater: yr effaith ar eu sefyllfa ariannol hwy eu hunain a'r effaith ar gyflenwi gwasanaethau. Cadarnhawyd eu pryderon gan ddata ein harolwg, a ddangosai fod hyn yn broblem anferth i'r rhan fwyaf o weithwyr oedd yn dibynnu ar eu ceir i wneud eu gwaith.

"Dydw i ddim bellach yn gallu fforddio defnyddio fy nghar ar gyfer teithiau personol gan na allaf ddim ond fforddio'r petrol [ar gyfer gwaith]. Pan gefais anaf oedd angen ei drin, roedd yn rhaid i mi aros tan ar ôl y penwythnos i fynd i'r Uned Mân Anafiadau agosaf gan bod raid i mi ddewis sut orau i ddefnyddio'r petrol oedd gen i ar ôl – mynd i uned 20 milltir i ffwrdd a bod heb ddigon o danwydd i deithio i'r gwaith am weddill yr wythnos, neu aros i fynd i'r uned leol 2 filltir i ffwrdd a chadw digon o danwydd i allu teithio i'r gwaith."

**Ydy'r cynnydd ym mhris tanwydd yn gysylltiedig â'ch gwaith wedi rhoi pwysau ar eich sefyllfa ariannol bersonol chi?**




1 Llywodraeth y DU: Cyfraddau milltiredd a gymeradwyir, 6 Ebrill 2022

# Yr effaith ar gyflenwi gwasanaethau

Yn ogystal â'r effaith ar weithwyr rheng flaen a'u teuluoedd, mae cost cynyddol petrol a diesel yn cael effaith ar gyflenwi gwasanaethau. Mae hyn i'w weld yn fwyaf amlwg mewn gwasanaethau sy'n cyflenwi cymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain, megis y cynllun cefnogi tenantiaid a Tai yn Gyntaf. Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o arbed digartrefedd, ac mae angen i staff cymorth deithio i weld gwahanol gleientiaid drwy gydol y diwrnod gwaith.

Bu amryw o staff rheng flaen yn amlinellu sut roedd yn rhaid iddyn nhw newid y modd roeddent yn cyflenwi cymorth, yn cynnwys mynd ar ymweliadau wyneb yn wyneb yn llai aml, a bellach yn methu cludo cleientiaid i apwyntiadau neu weithgareddau i gefnogi eu hiechyd a'u lles. Roedd llawer ohonynt yn pwysleisio pwysigrwydd gallu darparu cymorth person-ganolog, ond yn teimlo bod costau tanwydd yn cyfyngu ar eu gallu i fod yn hyblyg a chwrdd â gofynion cymorth pobl.

**"Ro'n i'n arfer gallu mynd â phobl rydyn ni'n eu cefnogi allan ar dripiau ambell ddiwrnod, i siopa neu allan i'r wlad, a hynny yn fy nghar fy hun; bellach dwi'n gorfod cyfyngu ar nifer y milltiroedd dwi'n eu teithio oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd."**

**"Dwi bellach yn gorfod dweud wrth gleientiaid taw dim ond ar rai dyddiau penodol dwi'n gallu eu gweld. Dwi'n rhedeg allan o arian tua diwedd y mis oherwydd mod i'n methu fforddio'r petrol."**

**"Ry'n ni'n ceisio cynllunio i weld cynifer o bobl ag sy'n bosibl mewn un diwrnod i arbed teithio cymaint gan fod y costau mor uchel - ond dyw hyn ddim wastad yn gweithio gan fod pobl ag angen cymorth ar wahanol adegau."**

**"Bydd [ymweliadau] â chleientiaid yn cael eu cyfyngu i sefyllfaoedd hynod bwysig yn unig, gan na allaf fforddio teithio i weld y bobl hyn bob dydd. Gyda rhai o'm cleientiaid, fi yw'r unig berson maen nhw'n weld bob wythnos – a nawr dwi'n gorfod torri i lawr ar yr ymweliadau hynny."**

**"Dwi'n gorfod gwrthod ceisiadau ychwanegol am ymweliad, ynghyd â gwrthod gweithio shifftiau mae gwir angen eu cyflenwi."**

**"Rhaid i mi nawr dorri i lawr yn sylweddol ar nifer yr ymweliadau wyneb yn wyneb fel gweithiwr asiantaeth. Dydw i ddim yn cael ad-daliad o 'nghostau tanwydd ac mae'n llyncu bron hanner fy nghyflog bob wythnos i roi tanwydd yn fy nghar."**

**"Rydyn ni wedi gorfod torri i lawr ar nifer yr ymweliadau â chleientiaid, gan arwain at wneud mwy o waith dros y ffôn - ac mae hynny'n cael effaith wael ar y berthynas rhyngom ni."**

## Argymhellion:

- **Dylai Cyllid a Thollau EM gynyddu'r gyfradd milltiredd i sicrhau nad yw gweithwyr rheng flaen ar eu colled yn ariannol o ganlyniad i ddefnyddio'u car eu hunain ar gyfer dyletswyddau sy'n rhan o'u gwaith.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at Lywodraeth y DU i fynnu cynnydd yn y gyfradd milltiredd.**
- **Yn y cyfamser, dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth y gallai ei wneud i estyn cymorth ariannol i staff iechyd, gofal a chymorth sy'n gorfod defnyddio'u cerbydau eu hunain i wneud eu gwaith.**

